



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2003 Rhif 2527 (Cy.242)**

**2003 No. 2527 (W.242)**

**NYRSYS, BYDWRAGEDD AC  
YMWELWYR IECHYD,  
CYMRU**

**NURSES, MIDWIVES AND  
HEALTH VISITORS,  
WALES**

Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys  
(Cymru) 2003

The Nurses Agencies (Wales)  
Regulations 2003

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf"), ac maent yn gymwys i asiantaethau nyrsys yng Nghymru yn unig. Mae Rhannau I a II o'r Ddeddf yn darparu mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mewn perthynas â Chymru a fydd yn cofrestru ac yn archwilio sefydliadau ac asiantaethau, gan gynnwys asiantaethau nyrsys. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu mai'r Cynulliad fydd yn gwneud rheoliadau sy'n llywodraethu'r ffordd y mae sefydliadau ac asiantaethau yn cael eu rhedeg.

These Regulations are made under the Care Standards Act 2000 ("the Act"), and apply in relation to nurses agencies in Wales only. Parts I and II of the Act provide for the National Assembly for Wales, in relation to Wales, to register and inspect establishments and agencies, including nurses agencies. The Act also provides for the Assembly to make regulations governing the conduct of establishments and agencies.

Yn ôl rheoliad 4, rhaid i bob asiantaeth baratoi datganiad o ddiben ynglŷn â'r materion a nodir yn Atodlen 1 ac arweiniad defnyddiwr gwasanaeth i'r asiantaeth (rheoliad 5). Rhaid i'r asiantaeth gael ei rhedeg mewn modd sy'n gyson â'r datganiad o ddiben.

By regulation 4, each agency must prepare a statement of purpose in relation to the matters set out in Schedule 1 and a service user's guide to the agency (regulation 5). The agency must be carried on in a manner which is consistent with the statement of purpose.

Mae rheoliadau 7 i 11 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â ffitrwydd y personau sy'n rhedeg ac yn rheoli asiantaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth foddhaol gael ei sicrhau am y materion a bennir yn Atodlen 2. Os corff yw'r darpariwydd, rhaid iddo enwi unigolyn cyfrifol y mae'n rhaid i'r wybodaeth hon fod ar gael amdano (rheoliad 7). Mae rheoliad 8 yn rhagnodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid penodi rheolwr ar gyfer yr asiantaeth, ac mae rheoliad 9 yn gwneud darpariaeth ynglŷn â ffitrwydd y rheolwr. Mae rheoliad 10 yn gosod gofynion cyffredinol ynglŷn ag ymddygiad priodol yr asiantaeth, a'r angen am hyfforddiant priodol.

Regulations 7 to 11 make provision about the fitness of the persons carrying on and managing an agency and require satisfactory information to be obtained in relation to the matters specified in Schedule 2. Where the provider is an organisation, it must nominate a responsible individual in respect of whom this information must be available (regulation 7). Regulation 8 prescribes the circumstances where a manager must be appointed in respect of the agency, and regulation 9 makes provision concerning the fitness of the manager. Regulation 10 imposes general requirements in relation to the proper conduct of the agency, and the need for appropriate training.

Mae Rhan III yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ymddygiad asiantaethau, yn enwedig am ansawdd y gwasanaethau sydd i'w darparu gan asiantaeth. Mae rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth am ffitrwydd pob nyrs sy'n cael ei chyflenwi gan asiantaeth. Mae rheoliad 13 yn nodi'r polisiau a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r person cofrestredig eu llunio a'u gweithredu os yw'r asiantaeth yn gweithredu fel busnes cyflogi. Yn ychwanegol, mae darpariaeth yn cael ei gwneud ynglŷn â staffio (rheoliad 14), darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth (rheoliad 16), cadw cofnodion (rheoliad 17 ac Atodlen 4) a chwynion (rheoliad 18). Mae darpariaeth yn cael ei gwneud hefyd am addasrwydd safleoedd (rheoliad 20) a'r rheolaeth ariannol ar yr asiantaeth (rheoliad 21). Mae rheoliadau 22 i 25 yn ymdrin â rhoi hysbysiadau i'r Cynulliad.

Mae Rhan IV yn ymdrin â materion amrywiol. Yn benodol, mae rheoliad 27 yn darparu ar gyfer tramgwyddau. Gellir cael bod torri rheoliadau 4 i 23 yn dramgwydd gan y person cofrestredig. Mae rheoliad 28 yn diwygio Rheoliadau Rheoleiddio Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Ffioedd) (Cymru) 2002 drwy ragnodi'r ffi flynyddol ar gyfer cofrestru asiantaethau nyrsys. Mae rheoliad 29 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Cofrestru Gofal Cymdeithasol a Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2002 i gynnwys asiantaethau nyrsys ac mae rheoliad 30 yn ymdrin â threfniadau trosiannol.

Part III makes provision in relation to the conduct of agencies, in particular about the quality of services to be provided by an agency. Regulation 12 makes provision about the fitness of all nurses supplied by an agency. Regulation 13 sets out the policies and procedures which must be prepared and implemented by the registered person where the agency is acting as an employment business. In addition, provision is made as to staffing (regulation 14), the provision of information to service users (regulation 16), record keeping (regulation 17 and Schedule 4) and complaints (regulation 18). Provision is also made about the suitability of premises (regulation 20) and the financial management of the agency (regulation 21). Regulations 22 to 25 deal with the giving of notices to the Assembly.

Part IV deals with miscellaneous matters. In particular, regulation 27 provides for offences. A breach of regulations 4 to 23 may found an offence on the part of the registered person. Regulation 28 amends the Regulation of Social Care and Independent Healthcare (Fees) (Wales) Regulations 2002 by prescribing the annual fee in respect of the registration of nurses agencies. Regulation 29 makes amendments to the Registration of Social Care and Independent Health Care (Wales) Regulations 2002 to include nurses agencies and regulation 30 deals with transitional arrangements.

**2003 Rhif 2527 (Cy.242)****2003 No. 2527 (W.242)****NYRSYS, BYDWRAGEDD AC  
YMWELWYR IECHYD,  
CYMRU****NURSES, MIDWIVES AND  
HEALTH VISITORS, WALES****Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys  
(Cymru) 2003****The Nurses Agencies (Wales)  
Regulations 2003**

*Wedi'u gwneud* 1 Hydref 2003  
*Yn dod i rym* 2 Hydref 2003

*Made* 1st October 2003  
*Coming into force* 2nd October 2003

## TREFN Y RHEOLIADAU

## ARRANGEMENT OF REGULATIONS

## RHAN I - CYFFREDINOL

## PART I - GENERAL

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli
3. Asiantaethau sydd wedi'u heithrio
4. Datganiad o ddiben
5. Arweiniad defnyddiwr gwasanaeth
6. Adolygu'r datganiad o ddiben a'r arweiniad defnyddiwr gwasanaeth

1. Citation, commencement and application
2. Interpretation
3. Excepted agencies
4. Statement of purpose
5. Service user's guide
6. Review of statement of purpose and service user's guide

## RHAN II - PERSONAU COFRESTREDIG

## PART II - REGISTERED PERSONS

7. Ffitrwydd y darparwydd cofrestredig
8. Penodi rheolwr
9. Ffitrwydd y rheolwr
10. Y person cofrestredig - gofynion cyffredinol a hyfforddiant
11. Hysbysu o dramgwyddau

7. Fitness of registered provider
8. Appointment of manager
9. Fitness of manager
10. Registered person - general requirements and training
11. Notification of offences

## RHAN III - RHEDEG ASIANTAETHAU NYRSYS

## PART III - CONDUCT OF NURSES AGENCIES

## Pennod 1

## Chapter 1

Ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

Quality of service provision

12. Ffitrwydd y nyrsys sy'n cael eu cyflenwi gan asiantaeth
13. Polisiau a gweithdrefnau
14. Staffio
15. Y llawlyfr staff
16. Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth
17. Cofnodion

12. Fitness of nurses supplied by an agency
13. Policies and procedures
14. Staffing
15. Staff handbook
16. Provision of information to service users
17. Records

- 18. Cwynion
- 19. Adolygu ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu

Pennod 2

Y safle

- 20. Ffitrwydd y safle

Pennod 3

Materion ariannol

- 21. Y sefyllfa ariannol

Pennod 4

Yr hysbysiadau sydd i'w rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol

- 22. Hysbysu o absenoldeb
- 23. Hysbysu o newidiadau
- 24. Penodi datodwyr etc.
- 25. Marwolaeth y person cofrestredig

RHAN IV - AMRYWIOL

- 26. Cydymffurfio â'r rheoliadau
- 27. Tramgwyddau
- 28. Ffioedd
- 29. Cofrestru
- 30. Darpariaethau trosiannol

YR ATODLENNI

- 1. Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn y datganiad o ddiben
- 2. Yr wybodaeth sy'n ofynnol ynglŷn â darparwyr cofrestredig a rheolwyr asiantaeth a nyrsys sy'n gyfrifol am ddethol nyrsys i'w cyflenwi i ddefnyddwyr gwasanaeth
- 3. Yr wybodaeth sy'n ofynnol ynglŷn â nyrsys sydd i'w cyflenwi gan asiantaeth
- 4. Y cofnodion sydd i'w cadw ar gyfer archwiliad
- 5. Darpariaethau trosiannol

- 18. Complaints
- 19. Review of quality of service provision

Chapter 2

Premises

- 20. Fitness of premises

Chapter 3

Financial matters

- 21. Financial position

Chapter 4

Notices to be given to the National Assembly

- 22. Notice of absence
- 23. Notice of changes
- 24. Appointment of liquidators etc.
- 25. Death of registered person

PART IV - MISCELLANEOUS

- 26. Compliance with regulations
- 27. Offences
- 28. Fees
- 29. Registration
- 30. Transitional provisions

SCHEDULES

- 1. Information to be included in the statement of purpose
- 2. Information required in respect of registered providers and managers of an agency and nurses responsible for selecting nurses for supply to service users
- 3. Information required in respect of nurses to be supplied by an agency
- 4. Records to be maintained for inspection
- 5. Transitional provisions

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 4(6), 16(3), 22(1), (2)(a) i (c), (f) i (j) a (7)(a) i (h) a (j), 25, 34(1), 35 a 118(5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(a) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn cyswllt hwnnw, ar ôl ymgynghori â'r personau y mae'n barnu eu bod yn briodol(b), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol: -

RHAN I  
CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1. -(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Asiantaethau Nyrsys (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 2 Hydref 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i asiantaethau nyrsys yng Nghymru yn unig.

**Dehongli**

2. -(1) Yn y rheoliadau hyn -

ystyr "arweiniad defnyddiwr gwasanaeth" ("*service user's guide*") yw'r arweiniad ysgrifenedig sy'n cael ei gynhyrchu yn unol â rheoliad 5;

ystyr "asiantaeth" ("*agency*") yw asiantaeth nyrsys;

ystyr "awdurdod" ("*authority*"), mewn perthynas â pherson -

(a) sy'n rhedeg neu sy'n dymuno rhedeg, asiantaeth i gyflenwi nyrsys o fewn ystyr "agency for the supply of nurses" yn Neddf 1957; a

(b) sy'n ddeiliad trwydded sydd wedi'i rhoi i'r person hwnnw gan awdurdod lleol o dan adran 2 o'r Ddeddf honno ac sy'n awdurdodi'r deiliad i redeg yr asiantaeth honno o'r safle sydd wedi'i bennu yn y drwydded, neu sydd wedi gwneud cais am drwydded o'r fath,

yw'r awdurdod lleol, sef, at ddibenion yr adran honno, yr awdurdod trwyddedu y mae'r safle wedi'i leoli yn ei ardal;

ystyr "claf" ("*patient*") yw person y mae

---

(a) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan "the appropriate Minister", sydd wedi'i ddiffinio yn adran 121(1) (o'i darllen gyda adran 5(1)(b)), mewn perthynas â Chymru fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac, mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, fel yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae "prescribed" a "regulations" wedi'u diffinio yn adran 121 (1) o'r Ddeddf.

(b) *Gweler* adran 22(9) o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ynglyn â'r gofyniad i ymgynghori.

The National Assembly for Wales, in exercise of powers conferred upon it by sections 4(6), 16(3), 22(1), (2)(a) to (c), (f) to (j) and (7)(a) to (h) and (j), 25, 34(1), 35 and 118(5) to (7) of the Care Standards Act 2000(a) and of all other powers enabling it in that behalf, having consulted such persons as it considers appropriate(b), hereby makes the following Regulations:-

PART I  
GENERAL

**Citation, commencement and application**

1. -(1) These Regulations may be cited as the Nurses Agencies (Wales) Regulations 2003 and come into force on 2nd October 2003.

(2) These Regulations apply to nurses agencies in Wales only.

**Interpretation**

2. -(1) In these Regulations -

"1957 Act" ("*Deddf 1957*") means the Nurses Agencies Act 1957(c);

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Care Standards Act 2000;

"agency" ("*asiantaeth*") means a nurses agency;

"appropriate office" ("*swyddfa briodol*") means in relation to a nurses agency -

(a) if an office has been specified under paragraph (4) below for the area in which the nurses agency operates, that office;

(b) in any other case, any office of the National Assembly;

"authority" ("*awdurdod*") means, in respect of a person who -

(a) carries on, or wishes to carry on, an agency for the supply of nurses within the meaning of the 1957 Act; and

(b) is the holder of a licence which has been granted to that person by a local authority under section 2 of that Act and which authorises the holder to carry on that agency

---

(a) 2000 c.14. The powers are exercisable by the appropriate Minister, who is defined in section 121(1)(as read with section 5(1)(b)), in relation to Wales as the National Assembly for Wales and, in relation to England, Scotland and Northern Ireland, as the Secretary of State. "Prescribed" and "regulations" are defined in section 121(1) of the Act.

(b) *See* section 22(9) of the Care Standards Act 2000 for the requirement to consult.

(c) 1957 c.16.

gwasanaeth nyrsio yn cael ei ddarparu iddo gan nyrs a gyflenwyd gan asiantaeth;

ystyr "corff" ("*organisation*") yw corff corfforedig;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "darparpwydd asiantaeth nyrsys" ("*nurses agency provider*") yw person sydd, yn union cyn 2 Hydref 2003 -

- (a) yn rhedeg asiantaeth i gyflenwi nyrsys o fewn ystyr "agency for the supply of nurses" yn Neddf 1957; a
- (b) yn ddeiliad trwydded sydd wedi'i rhoi i'r person hwnnw gan awdurdod lleol o dan adran 2 o'r Ddeddf honno ac sy'n awdurdodi'r deiliad i redeg yr asiantaeth honno o'r safle sydd wedi'i bennu yn y drwydded;

ystyr "darparpwydd cofrestredig" ("*registered provider*"), mewn perthynas ag asiantaeth, yw person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran II o'r Ddeddf fel y person sy'n rhedeg yr asiantaeth honno;

ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad ysgrifenedig a luniwyd yn unol â rheoliad 4;

ystyr "Deddf 1957" ("*1957 Act*") yw Deddf Asiantaethau Nyrsys 1957(a);

ystyr "defnyddiwr gwasanaeth" ("*service user*") yw person y mae asiantaeth -

- (a) yn cyflenwi nyrs, sy'n cael ei chyflogi gan yr asiantaeth, iddo; neu
- (b) yn darparu gwasanaethau at ddibenion cyflenwi nyrs i'r defnyddiwr gwasanaeth er mwyn iddi gael ei chyflogi gan y defnyddiwr gwasanaeth hwnnw;

ystyr "dyddiad effeithiol" ("*effective date*") yw'r dyddiad o bryd y mae darparpwydd presennol i'w drin at ddibenion Rhan II o'r Ddeddf, yn unol â pharagraff 1(6) o Atodlen 5 i'r Rheoliadau hyn, fel petai wedi gwneud cais am gofrestrriad ar gyfer yr ymgymeriad presennol a bod y cofrestrriad hwnnw wedi'i ganiatáu;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

from premises specified in the licence, or has applied for such a licence,

the local authority which for the purposes of that section is the licensing authority in whose area the premises are situated;

"effective date" ("*dyddiad effeithiol*") means the date with effect from which an existing provider is for the purposes of Part II of the Act to be treated, in accordance with paragraph 1(6) of Schedule 5 to these Regulations, as having applied for and been granted registration in respect of the existing undertaking;

"existing undertaking" ("*ymgymeriad presennol*") means a person who, immediately before 2nd October 2003 -

- (a) carries on an agency for the supply of nurses within the meaning of the 1957 Act; and
- (b) is the holder of a licence which has been granted to that person by a local authority under section 2 of that Act and which authorises the holder to carry on that agency from premises specified in the licence;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"nurse" ("*nyrs*") means a registered nurse, registered midwife or registered health visitor(a);

"nurses agency provider" ("*darparpwydd asiantaeth nyrsys*") means a person who, immediately before 2nd October 2003 -

- (a) carries on an agency for the supply of nurses within the meaning of the 1957 Act; and
- (b) is the holder of a licence which has been granted to that person by a local authority under section 2 of that Act and which authorises the holder to carry on that agency from premises specified in the licence;

"NHS trust" ("*ymddiriedolaeth GIG*") has the same meaning as in the National Health Service and Community Care Act 1990(b);

"organisation" ("*corff*") means a body

---

(a) 1957 p.16.

---

(a) See the Interpretation Act 1978 (c.30), Schedule 1. A definition of "registered" in relation to nurses, midwives and health visitors was inserted by the Nurses, Midwives and Health Visitors Act 1979 (c.36), section 23(4) and Schedule 7, paragraph 30, as substituted by article 54(3) of, and Schedule 5, paragraph 7 to, the Nursing and Midwifery Order 2001 (S.I. 2002/253), on a date to be appointed.

(b) 1990 c. 19. See section 5 of that Act as amended by paragraph 69 of Schedule 1 to the Health Authorities Act 1995 (c.17) and sections 13(1) and 14 of the Health Act 1999 (c.8).

ystyr "nyrs" ("*nurse*") yw nyrs gofrestredig, bydwaig gofrestredig neu ymwelydd iechyd cofrestredig(a);

ystyr "person cofrestredig" ("*registered person*"), mewn perthynas ag asiantaeth, yw unrhyw berson sy'n ddarparydd cofrestredig yr asiantaeth honno neu'n rheolwr cofrestredig arni;

ystyr "rheolwr cofrestredig" ("*registered manager*"), mewn perthynas ag asiantaeth, yw unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru o dan Ran II o'r Ddeddf fel rheolwr yr asiantaeth honno;

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*") mewn perthynas ag asiantaeth nyrsys -

- (a) os oes swyddfa wedi'i phennu o dan baragraff (4) isod ar gyfer yr ardal y mae'r asiantaeth nyrsys yn gweithredu ynddi, yw'r swyddfa honno;
- (b) mewn unrhyw achos arall, yw unrhyw un o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol;

mae "unigolyn cyfrifol" ("*responsible individual*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 7;

mae i "ymddiriedolaeth GIG" yr un ystyr ag "*NHS trust*" yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990(b);

ystyr "ymgymeriad presennol" ("*existing undertaking*") yw person sydd, yn union cyn 2 Hydref 2003 -

- (a) yn rhedeg asiantaeth i gyflenwi nyrsys o fewn ystyr "agency for the supply of nurses" yn Neddf 1957; a
- (b) yn ddeiliad trwydded sydd wedi'i rhoi i'r person hwnnw gan awdurdod lleol o dan adran 2 o'r Ddeddf honno ac sy'n awdurdodi'r deiliad i redeg yr asiantaeth honno o'r safle sydd wedi'i bennu yn y drwydded.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriadau at gyflenwi nyrs yn golygu -

- (a) cyflenwi nyrs sy'n cael ei chyflogi at ddibenion asiantaeth i weithredu i berson arall neu o dan ei reolaeth; a
- (b) cyflwyno nyrs gan asiantaeth i ddefnyddiwr gwasanaeth er mwyn iddi gael ei chyflogi gan y defnyddiwr gwasanaeth hwnnw.

(3) Yn y diffiniad o "defnyddiwr gwasanaeth" ym

---

(a) *Gweler* Deddf Dehongli 1978 (p.30), Atodlen 1. Mewn nosodwyd diffiniad o "registered" mewn perthynas â nyrsys, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd gan Ddeddf Nyrsys, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd 1979 (p.36), adran 23(4) ac Atodlen 7, paragraff 30, fel y'u hamnewidiwyd gan erthygl 54(3) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 (O.S. 2002/253), ac Atodlen 5, paragraff 7 iddi, ar ddyddiad sydd i'w bennu.

(b) 1990 p. 19. *Gweler* adran 5 o'r Ddeddf honno fel y'i diwygiwyd gan baragraff 69 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p. 17) ac adrannau 13(1) a 14 o Ddeddf Iechyd 1999 (p. 8).

corporate;

"patient" ("*claf*") means a person to whom nursing is provided by a nurse supplied by an agency;

"registered manager" ("*rheolwr cofrestredig*"), in relation to an agency, means a person who is registered under Part II of the Act as the manager of that agency;

"registered person" ("*person cofrestredig*"), in relation to an agency, means any person who is the registered provider or the registered manager of that agency;

"registered provider" ("*darparydd cofrestredig*"), in relation to an agency, means a person who is registered under Part II of the Act as the person carrying on that agency;

"responsible individual" ("*unigolyn cyfrifol*") is to be construed in accordance with regulation 7;

"service user" ("*defnyddiwr gwasanaeth*") means a person to whom an agency -

- (a) supplies a nurse who is employed by the agency; or
- (b) provides services for the purpose of supplying the service user with a nurse for employment by that service user;

"service user's guide" ("*arweiniad defnyddiwr gwasanaeth*") means the written guide produced in accordance with regulation 5;

"statement of purpose" ("*datganiad o ddiben*") means the written statement compiled in accordance with regulation 4.

(2) In these Regulations, references to the supply of a nurse mean -

- (a) the supply of a nurse who is employed for the purposes of an agency to act for and under the control of another person; and
- (b) the introduction of a nurse by an agency to a service user for employment by that service user.

(3) In the definition of "service user" in paragraphs (1) and (2), the terms "employed" and "employment" include employment under a contract for services.

(4) The National Assembly may specify an office controlled by it as the appropriate office in relation to a nurses agency situated in a particular part of Wales.

mharagraffau (1) a (2), mae'r term "ei chyflogi" yn cynnwys cyflogaeth o dan gontract ar gyfer gwasanaethau.

(4) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol bennu swyddfa y mae'n ei rheoli fel y swyddfa briodol mewn perthynas ag asiantaeth nyrsys sydd wedi'i lleoli mewn rhan benodol o Gymru.

### **Asiantaethau sydd wedi'u heithrio**

3. At ddibenion y Ddeddf, mae ymddiriedolaeth GIG sy'n cyflenwi nyrsys i weithio ar gyfer ymddiriedolaethau GIG eraill yn unig wedi'i heithrio rhag bod yn asiantaeth nyrsys.

### **Datganiad o ddiben**

4. -(1) Rhaid i'r person cofrestredig lunio mewn perthynas â'r asiantaeth ddatganiad ysgrifenedig (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y datganiad o ddiben") y mae'n rhaid iddo gynnwys datganiad ynglŷn â'r materion a restrir yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig ddarparu copi o'r datganiad o ddiben i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol a rhaid iddo drefnu bod copi ohono ar gael ar gais i'w archwilio gan bob defnyddiwr gwasanaeth ac unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth.

(3) Ni fydd dim yn rheoliad 20 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig dorri neu beidio â chydymffurfio â'r canlynol, nac yn ei awdurdodi i wneud hynny -

- (a) unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn; neu
- (b) yr amodau sydd mewn grym am y tro mewn perthynas â chofrestru'r person cofrestredig o dan Ran II o'r Ddeddf.

### **Arweiniad defnyddiwr gwasanaeth**

5. -(1) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi arweiniad defnyddiwr gwasanaeth y mae'n rhaid iddo gynnwys -

- (a) crynodeb o'r datganiad o ddiben;
- (b) y telerau a'r amodau ar gyfer y gwasanaethau sydd i'w darparu i'r defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys y telerau a'r amodau ynglŷn â swm y ffioedd a dull eu talu;
- (c) crynodeb o'r weithdrefn gwyno a sefydlwyd yn unol â rheoliad 18; ac
- (ch) cyfeiriad a rhif ffôn unrhyw swyddfa briodol benodedig y Cynulliad Cenedlaethol.

### **Excepted agencies**

3. For the purposes of the Act, an NHS trust which supplies nurses to work solely for other NHS trusts is excepted from being a nurses agency.

### **Statement of purpose**

4. -(1) The registered person must compile in relation to the agency a written statement (in these Regulations referred to as "the statement of purpose") which must consist of a statement as to the matters listed in Schedule 1.

(2) The registered person must supply a copy of the statement of purpose to the appropriate office of the National Assembly and must make a copy of it available on request for inspection by every service user and any person acting on behalf of a service user.

(3) Nothing in regulation 20 shall require or authorise the registered person to contravene, or not to comply with -

- (a) any other provision of these Regulations; or
- (b) the conditions for the time being in force in relation to the registration of the registered person under Part II of the Act.

### **Service user's guide**

5. -(1) The registered person must prepare a service user's guide which must include -

- (a) a summary of the statement of purpose;
- (b) the terms and conditions in respect of the services to be provided to service users, including as to the amount and method of payment of fees;
- (c) a summary of the complaints procedure established in accordance with regulation 18; and
- (d) the address and telephone number of any specified appropriate office of the National Assembly.



(2) Rhaid i'r person cofrestredig drefnu bod copi o'r arweiniad defnyddiwr gwasanaeth ar gael ar gais i'w archwilio ar safle'r asiantaeth gan bob defnyddiwr gwasanaeth ac unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth.

### **Adolygu'r datganiad o ddiben a'r arweiniad defnyddiwr gwasanaeth**

6. Rhaid i'r person cofrestredig -
- (a) cadw'r ddatganiad o ddiben a'r arweiniad defnyddiwr gwasanaeth o dan sylw ac, os yw'n briodol, eu diwygio; a
  - (b) hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 28 diwrnod o unrhyw ddiwygiad o bwys.

## **RHAN II**

### **PERSONAU COFRESTREDIG**

#### **Ffiterwydd y darparydd cofrestredig**

7. -(1) Rhaid i berson beidio â rhedeg asiantaeth oni bai bod y person hwnnw yn ffit i wneud hynny.

(2) Nid yw berson yn ffit i redeg asiantaeth oni bai bod y person -

- (a) yn unigolyn sy'n bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3); neu
- (b) yn gorff a -
  - (i) bod y corff wedi hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol o enw, cyfeiriad a safle unigolyn yn y corff (cyfeirir at yr unigolyn yn y rheoliadau hyn fel "yr unigolyn cyfrifol") sy'n gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall i'r corff ac sy'n gyfrifol am oruchwylio'r rheolaeth ar yr asiantaeth; a
  - (ii) bod yr unigolyn hwnnw yn bodloni'r gofynion a nodir ym mharagraff (3).

(3) Dyma'r gofynion -

- (a) bod yr unigolyn yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da;
- (b) bod yr unigolyn yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i redeg yr asiantaeth; ac
- (c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â'r unigolyn -
  - (i) ac eithrio os yw paragraff (4) yn gymwys, am bob mater a bennir ym mharagraffau 1 i 8 o Atodlen 2;
  - (ii) os yw paragraff (4) yn gymwys, am bob mater a bennir ym mharagraffau 1 a 3 i 9 o Atodlen 2.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw unigolyn

(2) The registered person must make a copy of the service user's guide available on request for inspection at the agency premises by every service user and any person acting on behalf of a service user.

### **Review of statement of purpose and service user's guide**

6. The registered person must -
- (a) keep under review and, where appropriate, revise the statement of purpose and the service user's guide; and
  - (b) notify the appropriate office of the National Assembly of any significant revision within 28 days.

## **PART II**

### **REGISTERED PERSONS**

#### **Fitness of registered provider**

7. -(1) A person must not carry on an agency unless that person is fit to do so.

(2) A person is not fit to carry on an agency unless the person -

- (a) is an individual who satisfies the requirements set out in paragraph (3); or
- (b) is an organisation and -
  - (i) the organisation has given notice to the appropriate office of the National Assembly of the name, address and position in the organisation of an individual (in these Regulations referred to as "the responsible individual") who is a director, manager, secretary or other officer of the organisation and is responsible for supervising the management of the agency; and
  - (ii) that individual satisfies the requirements set out in paragraph (3).

(3) The requirements are that -

- (a) the individual is of integrity and good character;
- (b) the individual is physically and mentally fit to carry on the agency; and
- (c) full and satisfactory information is available in relation to the individual -
  - (i) except where paragraph (4) applies, in respect of each matter specified in paragraphs 1 to 8 of Schedule 2;
  - (ii) where paragraph (4) applies, in respect of each matter specified in paragraphs 1 and 3 to 9 of Schedule 2.

(4) This paragraph applies where an individual has

wedi gwneud cais am dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ond nad yw'r dystysgrif wedi'i dyroddi.

- (5) Rhaid i berson beidio â rhedeg asiantaeth -
- (a) os yw wedi'i ddyfarnu'n fethdalwr neu os dyfarnwyd atafaeliad ar ei ystad ac, (yn y naill achos neu'r llall) nad yw wedi'i ryddhau ac nad yw'r gorchymyn methdaliad wedi'i ddiddymu neu wedi'i ddileu; neu
  - (b) os yw wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda'i gredydwyr ac nad yw wedi'i ryddhau mewn perthynas ag ef.

### **Penodi rheolwr**

**8.** -(1) Rhaid i'r darparrydd cofrestredig benodi unigolyn i reoli'r asiantaeth -

- (a) pan nad oes unrhyw reolwr cofrestredig ar gyfer yr asiantaeth; a
- (b) pan fo'r darparrydd cofrestredig -
  - (i) yn gorff; neu
  - (ii) yn berson anffit i reoli asiantaeth; neu
  - (iii) yn berson nad oes ganddo ofal amser llawn dros yr asiantaeth o ddydd i ddydd, neu nad yw'n bwriadu bod â gofal o'r fath drosti.

(2) Pan fydd y darparrydd cofrestredig yn penodi person i reoli'r asiantaeth, rhaid iddo hysbysu swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith -

- (a) o enw'r person a benodwyd felly; a
- (b) o'r dyddiad y mae'r penodiad i fod i ddod i rym.

### **Ffitrwydd y rheolwr**

**9.** -(1) Rhaid i berson beidio â rheoli asiantaeth oni bai ei fod yn ffit i wneud hynny.

- (2) Nid yw person yn ffit i reoli asiantaeth oni bai -
- (a) ei fod yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da;
  - (b) o roi sylw i faint yr asiantaeth, ei datganiad o ddiben a nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth -
    - (i) bod gan y person y cymwysterau, y medrau a'r profiad sy'n angenrheidiol i reoli'r asiantaeth; a
    - (ii) bod y person yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i wneud hynny;
  - (c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas ag ef -
    - (i) ac eithrio os yw paragraff (3) yn gymwys, am bob mater a bennir ym mharagraffau 1 i 8 o Atodlen 2,
    - (ii) os yw paragraff (3) yn gymwys, am bob

applied for a certificate referred to in paragraph 2 of Schedule 2 but the certificate has not been issued.

(5) A person must not carry on an agency if -

- (a) he or she has been adjudged bankrupt or sequestration of his or her estate has been awarded and (in either case) he or she has not been discharged and the bankruptcy order has not been annulled or rescinded; or
- (b) he or she has made a composition or arrangement with his or her creditors and has not been discharged in respect of it.

### **Appointment of manager**

**8.** -(1) The registered provider must appoint an individual to manage the agency where -

- (a) there is no registered manager in respect of the agency; and
- (b) the registered provider -
  - (i) is an organisation; or
  - (ii) is not a fit person to manage an agency; or
  - (iii) is not, or does not intend to be, in full-time day to day charge of the agency.

(2) Where the registered provider appoints a person to manage the agency, he or she must forthwith give notice to the appropriate office of the National Assembly of -

- (a) the name of the person so appointed; and
- (b) the date on which the appointment is to take effect.

### **Fitness of manager**

**9.** -(1) A person must not manage an agency unless he or she is fit to do so.

- (2) A person is not fit to manage an agency unless-
- (a) he or she is of integrity and good character;
  - (b) having regard to the size of the agency, its statement of purpose and the number and needs of the service users-
    - (i) he or she has the qualifications, skills and experience necessary to manage the agency; and
    - (ii) he or she is physically and mentally fit to do so; and
  - (c) full and satisfactory information is available in relation to him or her -
    - (i) except where paragraph (3) applies, in respect of each matter specified in paragraphs 1 to 8 of Schedule 2,
    - (ii) where paragraph (3) applies, in respect of

mater a bennir ym mharagraffau 1 a 3 i 9 o Atodlen 2.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw unigolyn wedi gwneud cais am dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ond nad yw'r dystysgrif wedi'i dyroddi.

### **Y person cofrestredig - gofynion cyffredinol a hyfforddiant**

**10.** -(1) Rhaid i'r darparydd cofrestredig a'r rheolwr cofrestredig, o ystyried maint yr asiantaeth, ei datganiad o ddiben a nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, redeg yr asiantaeth, neu (yn ôl fel y digwydd) ei rheoli, â gofal, medrusrwydd a medr digonol.

(2) Os yw'r darparydd cofrestredig -

- (a) yn unigolyn, rhaid iddo ymgymryd; neu
- (b) yn gorff, rhaid iddo sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol yn ymgymryd,

o dro i dro â'r hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r profiad a'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg yr asiantaeth.

(3) Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ymgymryd o dro i dro â'r hyfforddiant sy'n briodol i sicrhau bod ganddo'r profiad a'r medrau sy'n angenrheidiol ar gyfer rheoli'r asiantaeth.

### **Hysbysu o dramgwyddau**

**11.** Os yw'r person cofrestredig neu'r unigolyn cyfrifol wedi'i gollfarnu o unrhyw dramgwydd troseddol, boed hwnnw wedi'i gyflawni yng Nghymru neu mewn man arall, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith i swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol -

- (i) o ddyddiad a man y collfarniad;
- (ii) o'r tramgwydd y mae wedi'i gollfarnu ohono; a
- (iii) o'r gosb a osodwyd mewn perthynas â'r tramgwydd.

#### **RHAN III**

#### **RHEDEG ASiantaethau Nyrsys**

#### **PENNOD 1**

#### **ANSAWDD Y GWASANAETH SY'N CAEL EI DDARPARU**

### **Ffitrwydd y nyrsys sy'n cael eu cyflenwi gan asiantaeth**

**12.** -(1) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau na fydd unrhyw nyrs yn cael ei chyflenwi gan yr asiantaeth oni bai -

- (a) ei bod yn berson addas o ran ei gonestrwydd a'i chymeriad da;

each matter specified in paragraphs 1 and 3 to 9 of Schedule 2.

(3) This paragraph applies where an individual has applied for a certificate referred to in paragraph 2 of Schedule 2 but the certificate has not been issued.

### **Registered person - general requirements and training**

**10.** -(1) The registered provider and the registered manager must, having regard to the size of the agency, its statement of purpose and the number and needs of the service users, carry on or (as the case may be) manage the agency with sufficient care, competence and skill.

(2) If the registered provider is -

- (a) an individual, he or she must undertake; or
- (b) an organisation, it must ensure that the responsible individual undertakes,

from time to time such training as is appropriate to ensure that he or she has the experience and skills necessary for carrying on the agency.

(3) The registered manager must undertake from time to time such training as is appropriate to ensure that he or she has the experience and skills necessary for managing the agency.

### **Notification of offences**

**11.** Where the registered person or the responsible individual is convicted of any criminal offence, whether committed in Wales or elsewhere, he or she must forthwith give notice in writing to the appropriate office of the National Assembly of -

- (i) the date and place of the conviction;
- (ii) the offence of which he or she was convicted; and
- (iii) the penalty imposed in respect of the offence.

#### **PART III**

#### **CONDUCT OF NURSES AGENCIES**

#### **CHAPTER 1**

#### **QUALITY OF SERVICE PROVISION**

### **Fitness of nurses supplied by an agency**

**12.** -(1) The registered person must ensure that no nurse is supplied by the agency unless-

- (a) he or she is of integrity and good character;

- (b) bod ganddi'r cymwysterau, y medrau a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y mae i'w gyflawni;
- (c) ei bod yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol ar gyfer y gwaith hwnnw; ac
- (ch) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael amdani ar gyfer pob un o'r materion a bennir yn Atodlen 3.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod gwaith dethol nyrs i'w chyflenwi yn cael ei wneud gan nyrs neu o dan ei goruchwyliaeth a bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael am y nyrs sy'n gwneud y gwaith dethol -

- (i) ac eithrio os yw paragraff (3) yn gymwys, am bob mater a bennir ym mharagraffau 1 i 8 o Atodlen 2;
- (ii) os yw paragraff (3) yn gymwys, am bob mater a bennir ym mharagraffau 1 a 3 i 9 o Atodlen 2.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys os yw unigolyn wedi gwneud cais am dystysgrif y cyfeirir ati ym mharagraff 2 o Atodlen 2 ond nad yw'r dystysgrif wedi'i dyroddi.

(4) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob nyrs sy'n cael ei chyflenwi gan yr asiantaeth pan fydd yn gweithredu fel busnes cyflogi(a) yn cael ei chyfarwyddo bod rhaid iddi wisgo bob amser, pan fydd yn gweithio i ddefnyddiwr gwasanaeth, gerdyn adnabod sy'n dangos ei henw, enw'r asiantaeth a ffotograff diweddar.

### Polisiâu a gweithdrefnau

13. -(1) Mae paragraffau (2) a (3) yn gymwys pan fydd asiantaeth sy'n gweithredu fel busnes cyflogi yn cyflenwi nyrs i ddarparu gofal nyrsio ym mhreswylfa breifat defnyddiwr gwasanaeth neu glaf.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig baratoi polisiâu ysgrifenedig a'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r canlynol -

- (a) sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu i bob claf yn cyd-fynd â'r datganiad o ddiben ac yn diwallu anghenion unigol y claf hwnnw;
- (b) o dan ba amgylchiadau y caiff nyrsys roi meddyginiaeth i'r claf neu helpu i'w rhoi;
- (c) y tasgau eraill y caiff neu na chaiff nyrsys eu cyflawni mewn cysylltiad â gofal claf, a'r tasgau na chaniateir eu cyflawni os nad yw'r nyrs wedi cael hyfforddiant arbenigol;
- (ch) trefniadau i helpu cleifion ynglŷn â materion symudedd yn eu cartrefi, yn ôl yr angen;

(a) *Gweler* adran 121(1) o'r Ddeddf i weld y diffiniad o "employment business".

- (b) he or she has the qualifications, skills and experience which are necessary for the work which he or she is to perform;
- (c) he or she is physically and mentally fit for that work; and
